



Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant

Help i blant, pobl ifanc
a'u teuluoedd



Pwy all gael help?

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yma i'ch helpu,

- Os ydych yn byw yn Sir y Fflint, ac
- Os ydych chi, eich plentyn rhwng 0 a 18 oed
- Os ydych yn pryderu am blentyn sy'n byw yn Sir y Fflint

Pa help sydd ar gael?

Cymorth Rhianta a Chanolfannau Plant

Os hoffech wybodaeth am weithgareddau, gofalu plant a grwpiau cymorth neu help i gael gafael ar grantiau, gallwch ffonio Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint ar 01244 547017 am gyngor di-duedd am ddim.

Aseu Anghenion Plant

Os ydych chi, neu rywun arall, yn meddwl bod angen help amoch, bydd gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â chi i gasglu gwybodaeth er mwyn cynllunio'r cymorth gorau i'ch teulu.

Amddiffyn Plant

Os oes pryderon difrifol am ddiogelwch plentyn, rhaid i ni ymchwilio. Os oes gennych unrhyw bryderon am blentyn, gallwch gysylltu â ni yn gyfrinachol.

Cymorth i Deuluoedd

Os oes gweithiwr cymdeithasol wedi asesu bod angen cymorth neu ddiogelwch amoch chi neu'ch plentyn, gallwn gynnig help i chi ar gyfer rhianta, ymddygiad, anawsterau ariannol neu anawsterau tai, magu hyder, iechyd, diogelwch neu gadw mewn cysylltiad â'ch plant os ydynt mewn gofal.

Troseddwrwr Ifanc

Os oes unigolyn ifanc wedi troseddu neu os yw mewn perygl o droseddu, gallwn eu cynorthwyo.

Cymorth i Blant Anabl a'u teuluoedd

Os ydych yn rhiant i blentyn ag anabledd, gallwn eich helpu i gael gafael ar ofal iechyd, addysg, therapy galwedigaethol, gweithgareddau a chlybiau, offer arbenigol, addasiadau i'r cartref a chymorth gan rieni a gofaluwr eraill.

Gofalu am blant

Os oes angen gofalu ar eich plentyn, gallwn gynnig lle diogel i aros tra bo'ch problemau'n cael eu datrys. Ein nod bob amser yw dychwelyd y plentyn i'w gartref os yw'n ddiogel. Os nad yw'r plant yn gallu byw gartref, gallwn ddod o hyd i deulu maeth hirdymor neu deulu mabwysiadu newydd iddynt.

Cynorthwyo pobl ifanc mewn gofal

Os ydych yn unigolyn ifanc sy'n byw mewn gofal, mae'ch gweithiwr cymdeithasol yma i'ch cynorthwyo. Gallwch siarad â nhw ar unrhyw adeg gydag unrhyw broblemau. Rydym hefyd yn cynnal grwpiau cymorth lle gallwch gyfarfod â phobl ifanc eraill mewn gofal. Pan fyddwch yn barod i adael a by war eich pen eich hun, gallwn eich helpu.

Cwynion neu Ganmoliaeth

Os hoffech ganmol neu roi cwyn am ein gwasanaeth, ffoniwch 01352 702623.

Sut i ofyn am help?

Gallwch ein ffonio ar:

01352 701000 (9am-5pm) neu

0845 0533 116 (y tu allan i oriau swyddfa)

neu edrychwch ar www.siryfflint.gov.uk

Mae'r daflen hon ar gael mewn fformatiau a ieithoedd eraill ar gais.